



**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI
2019/20 & 2020/21**

CYNNWYS

GWYBODAETH	2
GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL	3
Y CORFF LLYWODRAETHOL	5
STAFF	7
ADRODDIAD 2019/20 & 2020/21	8
DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/22	12
DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2019/20	13
DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2020/21	14
GAIR I GLOI	15

GWYBODAETH

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2020/21 oedd 195.

Cyfeiriad

18 Stryd Rhosmaen, Llandeilo SA19 6LU

Ffôn

(01558) 823489

Ebost

admin@teilosant.ysgolccc.cymru

Gwefan

www.ysgolteilosant.cymru



GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Pleser yw cael cyflwyno i'ch sylw Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni. Yn sgil effeithiau Covid, llaciwyd y gofynion o ran cynhyrchu'r adroddiad hwn y llynedd, ac nid oes angen adrodd ar y data cyrhaeddiad a phresenoldeb arferol ar hyn o bryd chwaith. Oherwydd hyn, a'r newid yn arweinyddiaeth yr ysgol hefyd, penderfynwyd cynhyrchu adroddiad yn cwmpasu'r ddwy flwyddyn academiaidd ddiwethaf, sef 2019/20 a 2020/21.

Braf yw medru cofio nôl i'r cyfnod cyn Covid gyda rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys llwyddiant ar y meysydd chwarae; Gŵyl Cerdd Dant Llanelli a'r Cylch; Carol yr Ŵyl S4C; sioeau Nadolig o safon uchel; perfformiadau yn y gymuned; ac Eisteddfod Gylch yr Urdd. Prin fu'r cyfleoedd cymdeithasol arferol wedi i'r pandemig a'r cyfnod clo ein bwrw yng ngwanwyn 2020, ond braf oedd gweld yr ysgol yn llwyddo yn Eisteddfod T yr Urdd ddwy flynedd o'r bron; dod yn ail drwy Gymru yng Nghwis Dim Clem Menter Dinefwr a derbyn gwobr wyddonol CREST drwy STEM Cymru.

Yn sgil Covid, bu'n rhaid newid ein holl systemau a ffordd o addysgu dros nos, a hoffem ddiolch i'r holl staff am ymroi'n llawn i sicrhau bod y disgyblion yn parhau i dderbyn addysg safonol, i'r rhieni am bob cydweithrediad a chefnogaeth, ond yn bennaf i'r plant am eu hymdrech a'u brwdfrydedd mewn cyfnod heriol a digynsail. Bu'n adeg o orfod cyflwyno newidiadau sylweddol dros nos gan addasu'n gyson, ond wedi dysgu o'r cyfnod clo cyntaf, cyflwynwyd systemau newydd effeithiol, sydd dal mewn lle os bydd angen addasu i ddysgu o'r cartref am gyfnodau eto yn y dyfodol. Er gwaetha'r pandemig, cafodd y plant gyfleoedd niferus fel y gwelir nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. O safbwynt y Corff Llywodraethol a'r Uwch Dîm Rheoli, llwyddwyd hefyd i sefydlu a datblygu nifer o brosiectau a gweithdrefnau newydd, yn cynnwys y canlynol:

Safle

Mae oed a chyflwr yr adeiladau a'r safle'n profi'n her ddyddiol, gyda chostau cyson ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio. Serch hyn, braf hefyd yw gweld datblygiadau newydd a chyffrous fydd yn rhoi rhagor o gyfleoedd i'r plant, a/neu'n gwella delwedd yr ysgol i'r cyhoedd, yn cynnwys y canlynol:

- Adeiladu ardaloedd chwarae newydd a gardd newydd sbon ym mlaen yr ysgol drwy gefnogaeth a gwaith caled y Gymdeithas Rieni ac Athrawon
- Cynllunio arwydd newydd i flaen yr ysgol, a fydd yn cael ei godi'n fuan
- Adnewyddu'r hen gaban yn ystafell ddosbarth i ryddhau'r dosbarth ger y neuadd yn ystafell amlbwrpas at ddefnydd a lles y disgyblion. Wedi sawl blwyddyn o drafod, braf yw gweld bod y gwaith eisoes wedi dechrau ac edrychwn ymlaen at weld y caban yn cael ei gwblhau'n fuan

Cyfathrebu

Yn dilyn derbyn sylwadau gan rieni cyflwynwyd nifer o welliannau fel a ganlyn:

- Llythyr gwybodaeth wythnosol gan y Pennaeth
- Cylchlythyr tymhorol gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol a'r Pennaeth
- Datblygu a gwneud rhagor o ddefnydd o ap yr ysgol
- Cynyddu'r gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Ailwampio cynnwys a diwyg Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni
- Sefydlu gwefan newydd i'r ysgol (a fydd yn mynd yn fyw yn nhymor yr Hydref 2021)
- Creu brand newydd a chyfoes i'r ysgol (sydd i'w weld ar glawr yr adroddiad hwn)
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng y Corff Llywodraethol a'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon drwy gyfarfodydd tymhorol pwrpasol

Staffio

Yn dilyn newidiadau mewn personél yn yr ysgol, dyma rai o'r prif elfennau a gafodd sylw:

- Adolygu dyletswyddau ac oriau gwaith staff y swyddfa
- Datblygu'r rôl a phenodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ad-drefnu'r Uwch Dîm Rheoli a sefydlu trefn Arweinyddiaeth newydd dros dro, nes bod modd cadarnhau Pennaeth parhaol yn ystod 2021/22

O safbwynt sefyllfa ariannol yr ysgol, mae'r Is-bwyllgor Cyllid wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i wyrddroi diffyg ariannol, a braf bellach yw cael arian wrth gefn sy'n ein galluogi i fuddsoddi mewn adnoddau newydd, gwaith ar y safle, ac amser staff i gefnogi'r disgyblion wrth ddod allan o gyfnodau heriol y pandemig.

Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon sydd wedi parhau i weithredu er gwaethaf yr heriau, ac er na fu modd cynnal gweithgareddau cymdeithasol dros y cyfnod diwethaf, bu criw yn gweithio'n ddiwyd i sefydlu Cronfa Ffrindiau Teilo Sant, a fydd yn ffordd newydd hwylus o fedru derbyn cyfraniadau tuag at waith y Gymdeithas i gefnogi'r ysgol.

Bu cyfnodau heriol iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac adegau'n galw am gyfarfodydd dyddiol, a gorfod cau'r ysgol ar fyr rybudd, ond drwy gydweithio agos ac effeithlon, llwyddwyd i barhau i gynnig addysg safonol i'n plant. Wrth gwrs, rydym yn parhau i fod mewn cyfnod heriol wrth geisio dal i fyny ac adfer yn dilyn y ddwy flynedd ddigynsail ddiwethaf, yn ogystal â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd, ond rydym yn hyderus bod y cynlluniau a'r gweithdrefnau priodol mewn lle i fynd i'r afael â'r sialensau hyn, a gosod sylfeini cadarn mewn lle i baratoi'r plant yn hyderus ar gyfer eu dyfodol.

Ar lefel bersonol, wrth i fy nghyfnod fe Cadeirydd y Corff Llywodraethol a'r Is-bwyllgor Cyllid, Adeilad a Staffio ddod i ben, hoffwn ddiolch o galon am gydweithrediad Mr Rees, Mrs Williams, yr Uwch Dîm Rheoli, y staff clericio, yn ogystal â'm cyd-aelodau ar y Corff Llywodraethol, gan ddymuno pob dymuniad da i Mr Tim Hayes a fydd yn dod yn Gadeirydd newydd yn ein Cyfarfod Blynyddol yn fuan.

Diolch arbennig hefyd i Mrs Williams am gamu i'r adwy mor effeithiol mewn cyfnod ansicr, ac am gytuno i barhau â'r gwaith o arwain yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Hoffem ddiolch yn ddiffuant iawn i holl staff yr ysgol am eu gwaith diflino bob amser, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod diwethaf a oedd yn gofyn am hyblygrwydd cyson ac ymrwymiad parhaus i'r gwaith. Diolch yn fawr hefyd i chi fel rhieni am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyson. Ond mae ein diolch pennaf i'r disgyblion, sydd wedi bod drwy gymaint o newidiadau, gan ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion newydd, ailgydio yn y gwaith, a dychwelyd i'r ysgol gyda gwên fawr ar eu hwyneb, ac mae hyn yn destun balchder i ni gyd.

Wrth gloi, hoffwn ddymuno'n dda i bawb yn nheulu Ysgol Gymraeg Teilo Sant a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Owain Gruffydd
Cadeirydd y Corff Llywodraethol
2019-2021

Y CORFF LLYWODRAETHOL

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL AR 31/08/2021

Enw	Statws	Dyddiad Terfynu
Mr Owain Gruffydd - Cadeirydd	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	14/07/2024
Mr Tim Hayes - Is-Gadeirydd	Rhiant Lywodraethwr	07/10/2022
Mrs Maureen Williams	Pennaeth Dros Dro	
Mrs Aloma Blackmore	Rhiant Lywodraethwr	31/12/2024
Mrs Carys Davies	Rhiant Lywodraethwr	31/12/2024
Mr Emyr Davies	Rhiant Lywodraethwr	20/03/2023
Mrs Naomi Williams	Rhiant Lywodraethwr	26/01/2025
Mrs Ellen Llewellyn	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	22/03/2025
Y Cynghorydd Owen James	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	17/06/2022
Mrs Catrin Small	Cynrychiolydd Cymunedol	09/04/2023
Y Cynghorydd Colin Jenkins	Cynrychiolydd Cymunedol	04/12/2021
Mr Euros Owen	Cynrychiolydd Cymunedol	08/03/2025
Y Cynghorydd Rob Jones	Cynrychiolydd Cymunedol	17/03/2023
Lle Gwag	Cynrychiolydd Cymunedol	
Mr Andrew Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol Ychwanegol	07/02/2023
Mr Aled Prytherch	Staff Dysgu	10/10/2024
Lle Gwag	Staff Dysgu	
Mrs Elena Jones	Staff heb fod yn Dysgu	08/09/2023



CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mr Owain Gruffydd
d/o Ysgol Gymraeg Teilo Sant
18 Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LU
owain.gruffydd5@teilosant.ysgolccc.cymru

CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Ceir trawstoriad o'r gymuned leol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol ac fe etholir y Cadeirydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor ac mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd a materion staffio, etc. Mae gan y Corff Llywodraethol bedwar is-bwyllgor sydd hefyd yn cwrdd yn dymhorol neu'n amlach os oes galw, sef:

- Is-bwyllgor Cyllid, Staffio ac Adeilad (Cadeirydd: Mr Owain Gruffydd)
- Is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu (Cadeirydd: Mr Tim Hayes)
- Is-bwyllgor Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Cadeirydd: Mr Euros Owen)
- Is-bwyllgor Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus (Mrs Ellen Llewellyn)

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn aelodau ar o leiaf ddau o'r Is-bwyllgorau uchod yn unol â'u profiad ac arbenigedd.

COSTAU LLYWODRAETHWYR

Ni hawliwyd costau gan unrhyw Lywodraethwr yn 2019/20 na 2020/21.

RHIANT LYWODRAETHWYR

Pan fod angen ethol rhiant lywodraethwyr, dosberthir ffurflenni ethol i bob rhiant yn yr Ysgol a lle ceir mwy nag un enwebiad cynhelir etholiad. Rhieni sy'n enwebu ac ethol rhiant lywodraethwyr.

CYFARFODYDD

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i rieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod bob blwyddyn trwy gyflwyno deiseb gyda 10% o rieni'r ysgol yn arwyddo'r ddeiseb a nodi pam maent eisiau cynnal cyfarfod. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod gyda rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ystod y cyfnod dan sylw.

CWYNION

Mae gan yr Ysgol bolisi cwynion a gweithredir yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael copi o'r polisi o'r ysgol.

POLISIÂU

Cafodd nifer o bolisiâu eu hadolygu a'u diweddarau gan y corff llywodraethol yn ystod y cyfnod dan sylw ac mae'r rhain i'w gweld ar y wefan a/neu ap yr ysgol. Gellid cysylltu â'r swyddfa am unrhyw bolisiâu eraill.

CYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, mae croeso i chi ysgrifennu at y Cadeirydd trwy lythyr i swyddfa'r ysgol neu e-bost. Croesawn eich cyfraniad bob amser.

STAFF

(Cywir ar 31/08/2021)

PENNAETH DROS DRO

Mrs Maureen Williams

ATHRAWON

Mr Aled Prytherch (Cydylynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Dros Dro)

Miss Elen Davies

Miss Jessica Lloyd

Miss Nia Davies

Mr Ryan Bennet (Athro dros gyfnod mamolaeth Mrs Sara Jones)

Mrs Sara Jones

Mrs Siwan Roberts (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)

ARWEINWYR MEITHRIN

Ms Amanda Jones

Miss Lowri Jones

CYNORTHWYWR DOSBARTH

Mrs Andrea Evans

Mrs Annaliese Davies

Mrs Avril Desvaux de Merigny

Mrs Carolyn Crayford

Mrs Elena Jones

Mrs Heather Davies

Mrs Lynda Morgan

Mrs Meryl Thomas

Mrs Nerys Davies

Mrs Nerys Howell

ATHRAWON PERIPATETIG

Mrs Gillian Thomas (Llinynnau)

Mrs Janet Rowberry (Chwythbrennau)

Mrs Nia Clwyd Davies (Canu Corawl)

Mr Richard Walters (Gitâr)

Ms Stephanie Rees (Pres)

SWYDDOG GWEINYDDOL

Miss Lisa Roberts

CLERC I'R CORFF LLYWODRAETHOL

Mrs Lynwen Davies (Cyngor Sir Gâr)

GOFALYDD

Mrs Eirwen Spencer

GLANHAWYR

Ms Danielle Donolly

Mrs Eirwen Spencer

CYNORTHWYWR AWR GINIO

Ms Danielle Donolly

Mrs Elaine Roberts

Mrs Karen Thomas

Miss Samantha Dyer

Mr Wyn Harris

Cynorthwywyr Dosbarth



ADRODDIAD 2019/20 & 2020/21

CATEGORI IAITH A'R DEFNYDD O'R GYMRAEG GAN DDISGYBLION

Ysgol Gymraeg yw Teilo Sant, ac felly Cymraeg yw iaith yr Ysgol o ddydd i ddydd. Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu'r ysgol, a chynhelir gwasanaethau a gweithgareddau ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith â'r llall.

DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Caiff y disgyblion hyn gymorth da a phriodol o fewn yr ysgol gan gynorthwyr profiadol. Mae'r oriau o gymorth a dderbyniant yn amrywio yn unol â'u anghenion unigol. Darperir Cynllun Addysg Unigol ar gyfer holl ddisgyblion Gweithredu Ysgol a Mwy yr ysgol ac adolygir y rhain yn dymhorol.

NEWIDIADAU I'R PROSBECTWS

Mae newidiadau i Staff, Llywodraethwyr, Cymdeithas Rieni ac Athrawon yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.

IECHYD A DIOGELWCH

Rydym yn dilyn trefniadau diogelwch tynn yn ddyddiol. Mabwysiadwyd a gweithredwyd ar Asesiadau Risg yr Awdurdod ar gyfer canllawiau Covid-19 ynghyd â mynychu cyfarfodydd wythnosol 'TTP' ac iechyd a diogelwch.

CYFLEUSTERAU'R TOILEDAU

Mae toiledau ar gyfer pob dosbarth. Darperir sebon a phapur sychu dwylo gyda hylif di-heintio tu allan i bob tŷ bach. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol.

BWYTA AC YFED YN IACH

Mae ffynnon ddŵr wedi'i lleoli ar bwys yr ystafell athrawon sy'n caniatáu mynediad at ddŵr yfed i'r disgyblion. Mae'r plant yn cael eu hybu i fwyta'n iach ac mae bwydlen cinio ysgol yn unol â darpariaeth bwyta'n iach yr Awdurdod Lleol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd bod yn iach fel rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol.

CWRICWLWM

Fel cymuned ysgol rydym yn darparu addysg o ansawdd uchel gan sicrhau profiadau addysgiadol cyfoethog er mwyn datblygu'r disgybl cyflawn. I wneud hyn rydym yn datblygu'r pedwar diben fel edafedd aur trwy holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Defnyddir fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cenedlaethol er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr gan ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth yn draws gwricwlaidd. Gwneir hyn trwy ddilyn themâu gan gynnwys llais y disgyblion ar y daith o gynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sef:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Rydym yn asesu a thracio cynnydd disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith gan ddarparu adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cyrhaeddiad a chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a'u cyrhaeddiad. Addysgir disgyblion yr ysgol fesul blwyddyn yn ôl eu hoedran.

CYNLLUN DATBLYGU'R YSGOL

Fel ysgol rydym yn ymwneud â phroses o hunan arfarnu cyson o ran pwysu a mesur beth sydd yn gweithio'n dda a'r hyn sydd angen gwella. Yn dilyn y broses yma rydym yn gweithio ar Gynllun Datblygu Ysgol, dogfen fyw sy'n cael ei gweithredu'n barhaol trwy'r flwyddyn. Mae'r ddogfen yn nodi ble ydyn ni ar hyn o bryd, yr hyn sydd angen gwella, sut, ac yna mesur yr effaith.

PRIF FLAENORIAETHAU 2019/20

1. Sefydlu grwpiau staff i ddatblygu meysydd dyfodol llwyddiannus gan sicrhau datblygu rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol ar draws y meysydd er mwyn cynnal safonau.
2. Parhau i ddatblygu ansawdd ar effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr.
3. Datblygu lles ar draws yr ysgol gan adeiladu ymhellach ar yr hyn gafodd ei wneud llynedd. Barn ysgol gyfan fod lles a llais y plentyn yn bwysig er mwyn iddynt gael mynediad i'r cwricwlwm a chyflawni'n well.
4. Anghenion Dysgu Ychwanegol - sefydlu gweithdrefnau a datblygu'r ddarpariaeth ADY.

PRIF FLAENORIAETHAU 2020/21

1. Sicrhau cyswllt effeithiol gyda rhieni wrth ateb gofynion Covid-19 a materion cyffredinol.
2. Lles - darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol yn dilyn effaith y cyfnod clo.
3. Datblygu darpariaeth Rhifedd ar draws yr ysgol a gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol a sgiliau rhifedd mewn ystod o wahanol gyd-destunau.
4. Datblygu staff i arwain cyfnod/meysydd gan gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a chodi safonau disgyblion.

PRIF FLAENORIAETHAU 2021/22

1. Parhau i ddatblygu a dyfnhau deallusrwydd cymuned gyfan yr ysgol o'r Cwricwlwm Newydd.
2. Anghenion Dysgu Ychwanegol - gweithredu ar ofynion y cod trawsnewid ADY.
3. Parhau gyda'r rhifedd - datblygu darpariaeth Rhifedd ar draws yr ysgol a gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol a sgiliau rhifedd mewn ystod o wahanol gyd-destunau.

PRESENOLDEB YN YSGOL GYMRAEG TEILO SANT 2020/21

Yn arferol gosodir targed o 96% ar gyfer presenoldeb ysgol gyfan gan y Corff Llywodraethol. Mae polisi wedi ei fabwysiadu a'i adolygu sy'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd gan yr ysgol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Lles Addysg i geisio cyrraedd at y targed hwn ac i leihau absenoldebau heb eu hawdurdodi. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â rhieni i ofyn am eglurhad am unrhyw absenoldeb sydd heb ei awdurdodi, gan gael gwared â'r cod N yn y gofrestr. Yn amlwg yn sgil Covid-19 mae'r presenoldeb wedi ei effeithio, a chanran presenoldeb cyffredinol 2020/21 oedd 94%.

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw Mrs Maureen Williams a Mrs Siwan Roberts. Mae aelod dynodedig o'r corff llywodraethol hefyd â chyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

BLAS O WEITHGAREDDAU'R YSGOL

Darparwyd y profiadau isod gan staff yr ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach ar gyfer ein disgyblion.

Dathlu llwyddiant a mwynhad 2019-2020

Atgofion melyn o fywyd cyn y pandemig

- Bu'r ysgol yn llwyddianus yng Ngŵyl Cerdd Dant Llanelli a'r Cylch 2019:
 - Cyntaf i'r Parti Cerdd Dant Oedran Cynradd
 - Cyntaf i'r Parti Alaw Werin Oedran Cynradd
- Bu bwrwlm Nadoligaidd wrth i'r ysgol fentro a llwyddo i gael ymddangosiad ar y teledu gyda Charol yr Ŵyl ar S4C
- Cynhaliwyd perfformiadau ysgol bythgofiadwy *Y Diflasiaid* gan Gyfnod Allweddol 2 a'r *Gacen Nadolig Berffaith* gan y Cyfnod Sylfaen
- Bu disgyblion yn brysur yn cyfrannu at adloniant Nadoligaidd lleol
- Dechreuwyd ar daith Eisteddfod Cylch yr Urdd gan brofi llwyddiant mawr, ond glaniodd y pandemig gan roi stop ar bopeth lle'r oedd cyswllt wyneb yn wyneb. Serch hyn, ni roddodd stop llwyr ar y cystadlu a gwelwyd dyfodiad Eisteddfod T gyda'r ysgol yn cystadlu ac yn llwyddo:
 - Cyntaf i'r Ddeuawd
 - Ail i'r Côr (dros 20 o leisiau)

Dathlu llwyddiant a mwynhad 2020-2021

- Gwasanaeth rhithiol wythnosol CS a blwyddyn 3 ar gyfer Ymdrechwr yr Wythnos
- Gwasanaeth Diolchgarwch rhithiol
- Ymweliadau gan Heddwys Tristan Evans (PC Tristan) a Gwenan Williams - nyrs yr ysgol
- Blwyddyn 6 yn rhan o ŵyl chwedleua "*Beyond the Border*"
- Sesiynau gêmâu buarth gan Fenter Dinefwr
- Codi arian i elusen Plant Mewn Angen a Chartref Awel Tywi
- Diwrnodau gwisgo i fyny
- Dathliadau rhithiol Calendr Adfent
- Clwb Gofal Cymraeg mewn cydweithrediad â Menter Dinefwr
- Yn dilyn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod clo sefydlwyd cerdded milltir/10 munud y dydd
- Cwis Dim Clem gyda Menter Dinefwr gan ddod yn ail dros Gymru gyfan
- Etholiadau Cyngor Ysgol ac is-bwyllgorau:

- Ysgol Iach
- Digwyddiadau
- Cyngor Eco
- Cyngor y Siarter Iaith
- Cyngor Digidol
- Dathliadau Gŵyl Ddewi fesul dosbarth
- Wythnos i hybu gwyddoniaeth a thechnoleg a llwyddiant Gwobr Crest
- Diwrnod datblygu cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Cystadlu yn Eisteddfod T yr Urdd a'r côr yn fuddugol
- Trip diwrnod i flwyddyn 4, 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Llangrannog
- Parti Môr ladron i'r Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 3
- Ymweliadau â Pharc Dinefwr i flynyddoedd 3, 4, 5 a 6
- Diwrnodau Pontio ar gyfer disgyblion blwyddyn 6



DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/22



TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/2022

		Gwyliau Hanner Tymor			
Tymor	Dechrau'r Tymor	Dechrau	Diwedd	Diwedd Tymor	Dyddiau
Hydref 2021	Dydd Iau 2il Medi	Dydd Llun 25ain Hydref	Dydd Gwener 29ain Hydref	Dydd Mawrth 21ain Rhagfyr	74
Gwanwyn 2022	Dydd Mawrth 4ydd Ionawr	Dydd Llun 21ain Chwefror	Dydd Gwener 25ain Chwefror	Dydd Gwener 8fed Ebrill	64
Haf 2022	Dydd Llun 25ain Ebrill	Dydd Llun 30ain Mai	Dydd Gwener 3ydd Mehefin	Dydd Mawrth 19eg Gorffennaf	56
Diwrnod HMS Penodol - Dydd Mercher, Medi 1af, 2021					1
Cyfanswm					195

O.N. Gwener y Groglith - 15fed Ebrill 2022
 Gŵyl Fai - 2il Mai 2022

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2019/20

Gwelir isod grynodeb o sefyllfa ariannol yr ysgol ar gyfer 2019/20 (hyd 31/03/2020)

	£	£
	2019/20	2018/19
Costau Staffio - Staff Dysgu	424,109	449,851
Costau Staffio - Staff Eraill	258,658	245,732
Atgyweirio, Cynnal a Chadw	8,094	7,790
Costau Ynni	9,100	8,710
Treth y Cyngor a Dŵr	10,578	10,153
Costau Eraill yn Ymwneud â'r Safle	3,641	3,049
- Deunyddiau Ganhau a Gwastraff		
Costau Trafndiaeth	3,974	5,273
Costau Deunyddiau Addysgu	16,205	12,955
- Deunyddiau Addysgu a TG, Teithiau a Chyrsiau		
Costau Cynnal Eraill	9,251	8,584
- Offer a Deunyddiau Swyddfa, Argraffu, Trwyddedi ac Yswiriant		
Cytundebau Lefel Gwasanaeth	39,747	39,593
- Glanhau, AD, Cyllid, TG, Cerddoriaeth, Cyfreithiol a Safle		
Ad-daliadau Canolog	16,784	0
- Cyllid Refeniw Uniongyrchol		
Cyfanswm Gwariant	800,141	791,690
Incwm Amrywiol		
- Grantiau, Ffioedd, Rhoddion a Llogi	198,529	173,248
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformiwla	636,546	618,970
Cyfanswm Incwm	835,075	792,218
Gweddill am y Flwyddyn	34,934	528
Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Drosodd o'r Flwyddyn Flaenorol	56,013	55,485
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i'r Flwyddyn Nesaf	90,947	56,013

DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2020/21

Gwelir isod grynodeb o sefyllfa ariannol yr ysgol ar gyfer 2020/21 (hyd 31/03/2021)

	£	£
	2020/21	2019/20
Costau Staffio - Staff Dysgu	439,492	424,109
Costau Staffio - Staff Eraill	257,666	258,658
Atgyweirio, Cynnal a Chadw	16,482	8,094
Costau Ynni	8,658	9,100
Treth y Cyngor a Dŵr	10,970	10,578
Costau Eraill yn Ymwneud â'r Safle - Deunyddiau Ganhau a Gwastraff	5,691	3,641
Costau Trafndiaeth	0	3,974
Costau Deunyddiau Addysgu - Deunyddiau Addysgu a TG, Teithiau a Chyrsiau	7,429	16,205
Costau Cynnal Eraill - Offer a Deunyddiau Swyddfa, Argraffu, Trwyddedi ac Yswiriant	8,820	9,251
Cytundebau Lefel Gwasanaeth - Glanhau, AD, Cyllid, TG, Cerddoriaeth, Cyfreithiol a Safle	53,214	39,747
Ad-daliadau Canolog - Cyllid Refeniw Uniongyrchol	0	16,784
Cyfanswm Gwariant	808,423	800,141
Incwm Amrywiol - Grantiau, Ffioedd, Rhoddion a Llogi	174,352	198,529
- Newidiau mewn Cyllid yn Ystod y Flwyddyn	2,291	0
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformiwla	686,545	636,546
Cyfanswm Incwm	863,188	835,075
Gweddill am y Flwyddyn	54,765	34,934
Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Drosodd o'r Flwyddyn Flaenorol	90,947	56,013
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i'r Flwyddyn Nesaf	145,712	90,947

GAIR I GLOI

Er i ni brofi blwyddyn arall wahanol iawn i'r arfer, fe lwyddodd yr ysgol a'r gymuned ymateb yn gadarnhaol gan oresgyn yr heriau a gododd ar hyd y flwyddyn. Datblygodd yr ysgol y llwyfan digidol ar gyfer dysgu cyfunol. Gwnaeth y staff, dysgwyr a rhieni addasu'n arbennig i'r her, a'r llwyfan yn profi'n hanfodol ar gyfer y cyfnod clo.

Er bod cwmwl y Covid wedi bod uwch ein pennau drwy gydol y flwyddyn bu ymrwymiad y staff a'r disgyblion yn haul ar fryn o fewn bywyd o swigod. Gwnaeth pawb addasu a gwneud y gorau o sefyllfa anarferol iawn gan gadw bwrlwm iach yr ysgol yn fyw. Bu'r cydweithio agos rhwng llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni yn allweddol i gadw cymuned yr ysgol mor ddiogel â phosib a pharhad yn addysg y disgyblion mor gyson â phosib.

Mae'n braf nodi datblygiadau newydd a chyffrous o ran parhau i ddatblygu'r Cwricwlwm Newydd ond hefyd datblygiadau i'r safle. Mae'r "Hen Gaban" yn cael bywyd newydd ac yn cael ei adnewyddu fel dosbarth unwaith eto a thipyn o waith atgyweirio'n digwydd ar y safle.

Mae plant bob amser yn llwyddo i'm rhyfeddu ac nid oedd eleni yn eithriad, hoffwn ddiolch iddynt am eu gwydnwch, parodrwydd i addasu a bod yn gwmni hyfryd boed wyneb yn wyneb neu'n rhithiol. Hoffwn ddiolch yn dwym galon i'r holl staff am eu gwaith di stop, cefnogaeth, doethineb a chyfeillgarwch. Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth, cyngor a'r holl waith sy'n digwydd yn y cefndir. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am weithio gyda ni er lles y disgyblion ac am sefydlu cronfa newydd. Yn olaf diolch i chi rieni am eich cydweithrediad, cefnogaeth a pharodrwydd i gynorthwyo ni yn yr ysgol er lles ein disgyblion.

Diolch yn fawr

Maureen Williams
Pennaeth Dros Dro

